Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

17 Ionawr, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyllideb 2025/26 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'n ofyniad statudol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd gymeradwyo ei gyllideb mewn cyfarfod o'r CBC erbyn 31 Ionawr yn flynyddol.

1.2 Mae'r gyllideb sydd yn yr atodiadau wedi ei rhannu i adlewyrchu strwythur y CBC, sef Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Parthau Buddsoddi a swyddogaethau corfforaethol, ac wedi ei dadansoddi fesul pennawd gwariant. Mae hyn yn caniatáu i gyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol gael eu codi drwy ardoll ar wahân ar gyfer y swyddogaethau 'Cynllunio' ac 'Eraill'.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1 Cymeradwyo Cyllideb 2025/26 y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd fel y'i cyflwynir yn yr atodiad. Cymeradwyo'r gyllideb fel nodir isod:-

- Cynllunio Strategol (6 Arweinydd a Cadeirydd Parc – mwyafrif syml, cworwm = 5)
- Swyddogaethau Eraill y CBC yn cynnwys Trafnidiaeth (6 Arweinydd – mwyafrif syml, cworwm = 5).

| Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb |
|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ |
| 375,040 | 184,180 | 343,260 | 902,480 |

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

2.2 Cymeradwyo’r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol, fel nodir isod:

- Cynllunio Strategol (Unfrydedd, cworwm = 7)
- Swyddogaethau eraill (Unfrydedd, cworwm = 6)

| | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (59,630) | (87,190) | (146,820) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,660) | (74,050) | (126,710) |
| Cyngor Sir y Fflint | (84,450) | (118,820) | (203,270) |
| Cyngor Gwynedd | (53,860) | (90,830) | (144,690) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (37,540) | (52,800) | (90,340) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (73,770) | (103,750) | (177,520) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (13,130) | | (13,130) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(375,040)** | **(527,440)** | **(902,480)** |

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae Rheoliadau 16 ac 17 o’r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu’r costau.

3.2 Unwaith eto, ar gyfer 2025/26 argymhellir bod y gyllideb yn cael ei hariannu drwy ardoll a ddosrannwyd rhwng yr awdurdodau cyfansoddol yn seiliedig ar y boblogaeth sy'n berthnasol i'r maes gwaith.

## 4. CEFNDIR A YSTYRIAETHAU PHERTHNASOL

4.1 Mae cyllideb y CBC ar gyfer 2025/26 wedi'i rhannu'n bedwar pennawd sef Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Parth Buddsoddi a swyddogaethau corfforaethol.

4.2 Cyfanswm cyllideb gwariant 2025/26 yw £1,647,220, gyda £180,000 wedi'i ariannu o ddyraniad y Parth Buddsoddi, £564,740 o'r gronfa wrth gefn a £902,480 o'r ardoll ar awdurdodau cyfansoddol.

4.3 Mae'r ardoll ar gyfer 2025/26 wedi cynyddu £137,660 ac mae hyn yn bennaf oherwydd argymhelliad diweddar y Llywodraethau i gael Cyfarwyddwr Portffolio llawn amser pwrpasol ar gyfer y Cynllun Twf. Mae hyn wedi cael effaith ar strwythur y CBC wrth symud ymlaen gyda swydd Prif Weithredwr y CBC a rannwyd yn flaenorol rhwng y Cynllun Twf a'r CBC bellach yn swydd Prif Weithredwr llawn amser a ariannwyd gan ardoll y CBC.

4.4 Bu oedi cyn trosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf i'r CBC ac mae'r dyddiad trosglwyddo tebygol bellach yn 1 Ebrill 2025. Bydd cyllideb ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith, a bydd yn cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar 14 Chwefror 2025.

4.5. Bydd adroddiadau monitro cyllideb yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd i'r CBC yn ystod y flwyddyn, a bydd unrhyw faterion yn cael eu hamlygu a chamau priodol yn cael eu cymryd.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

### 5.1. Penawdau'r gyllideb

Gweithwyr

5.1.1. Mae pedair swydd ychwanegol mewn Polisi, Caffael, Gweithrediadau a Gweinyddu wedi'u hychwanegu at y strwythur staffio ar gyfer 2025/26. Bydd y swyddi hyn yn cael eu hariannu i ddechrau o'r gronfa wrth gefn am gyfnod o ddwy flynedd a bydd angen trafodaeth bellach yn y dyfodol i benderfynu os yw angen eu gwneud yn barhaol a'u hychwanegu at yr ardoll.

5.1.2. Mae argymhelliad diweddar y Llywodraethau i gael Cyfarwyddwr Portffolio Cynllun Twf llawn amser pwrpasol hefyd wedi cael effaith ar strwythur staffio'r CBC wrth symud ymlaen. Yn flaenorol, rhannwyd swydd Prif Weithredwr y CBC rhwng y Cynllun Twf a'r CBC, ond yn dilyn yr argymhelliad hwn, mae cyllideb y CBC bellach wedi'i haddasu i gynnwys swydd Prif Weithredwr llawn amser yn ogystal â Chynorthwyydd Personol llawn amser.

5.1.3. Bydd angen i'r holl swyddi fynd drwy'r Arfarnu Swyddi ffurfiol a gallai canlyniadau'r broses hon gael effaith ar lefel y gyllideb sydd ei hangen yn y dyfodol. Mae cyfradd chwyddiant o 3% wedi'i roi ar gyfer 2025/26 ac mae'r newidiadau canran a trothwy Yswiriant Gwladol hefyd wedi'u gwneud.

5.1.4. Mae cost lwfans i aelodau lleyg yn seiliedig ar dri aelod ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a saith aelod ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

Teithio

5.1.5. Mae'r gyllideb teithio yn seiliedig ar amcangyfrif o lwfansau teithio hanfodol a chynhaliaeth staff.

Cyflenwadau a gwasanaethau

5.1.6. Mae'r pennawd yma yn cynnwys cyllidebau ar gyfer offer a chyfarpar, cyflenwadau amrywiol, ymgysylltu a chyfarfodydd, ffioedd archwilio, ymgynghorwyr allanol, yswiriant a systemau. Ychwanegwyd cyllideb systemau yn 2025/26 ar gyfer costau sefydlu cychwynnol yn ogystal â ffi flynyddol am System Rheoli Pwyllgorau.

Gwasanaethau Cefnogol

5.1.7. Mae angen gwasanaethau cefnogol i hwyluso gwaith y Cyd-Bwyllgor, a chynyddwyd y gyllideb ar gyfer 2025/26 i adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen wrth symud ymlaen ac mae'n cynnwys cefnogaeth Cyllid (gan gynnwys Swyddog Adran 151), Cyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro), Cefnogaeth Democratiaeth, Gwasanaethau Corfforaethol (Cyfieithu, Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd a Diogelwch) a gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

5.1.8. Bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei sefydlu gyda Chyngor Gwynedd a bydd yn cynnwys mwy o fanylion am yr adnoddau a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau cefnogol corfforaethol a statudol hyn.

5.1.9. Bydd angen adolygu'r gyllideb gwasanaethau cefnogol pan fydd rhagor o wybodaeth am ofyniad y Parth Buddsoddi ar gael gyda'r bwriad i unrhyw ofyniad cyllidebol ychwanegol ddod o'r gyllideb Parth Buddsoddi.

Costau sefydlu

5.1.10. Mae'r pennawd costau sefydlu yn cynnwys cyllideb ar gyfer y costau cyfreithiol ac ymgynghorwyr allanol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf i'r CBC yn ogystal â chyllideb ar gyfer y Parth Buddsoddi.

5.1.11. Derbyniwyd cadarnhad yng Nghyllideb Hydref 2024 y bydd y rhaglen Parth Buddsoddi yn parhau ledled y DG. Mae dogfennau'r Porth bellach yn cael eu paratoi gyda'r nod o gael yr holl gymeradwyaethau mewn lle i ddechrau ym mis Ebrill 2025. Mae dyraniad blynyddol o £640k i ariannu costau refeniw, a bydd traean o'r gyllideb hon yn cael ei dyrannu i'r CBC. Bydd yr hawliad cyntaf yn 2025/26 yn cynnwys y costau o £100k ar gyfer 2024/25, ac yna bydd yn gadael cyllideb o £180k ar gyfer y CBC ar gyfer 2025/26. Bydd angen trafod comisiynu gwaith sy'n gysylltiedig â'r pennawd Parth Buddsoddi ymhellach yn ystod y flwyddyn wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael.

Incwm

5.1.12. Mae cyfraniad o £564,740 o’r gronfa wrth gefn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gyllideb, ac yna bydd hyn yn gadael tua £0.5m yn y gronfa.

## 5.2. Cyfraniadau Awdurdodau Cyfansoddol

5.2.1. Rhannwyd cyfraniadau partneriaid yn seiliedig ar y ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad setliad 2025/26, a chyfanswm y gyllideb net a ddefnyddir i gyfrifo'r ardoll yw £902,480 ar gyfer 2025/26 sy'n gynnydd o £137,660 o 2024/25.

5.2.2. Yn unol â’r ddeddfwriaeth, bydd cyllideb gyffredinol y CBC a’r gyllideb Trafnidiaeth yn cael eu hariannu gan chwe awdurdod y Gogledd, tra bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn cyfrannu tuag at y gyllideb Cynllunio Strategol (lle bydd ganddynt bleidlais).

## 6. ASESIAD ARDRAWIAD

6.1. Mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

6.2. Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig dalu sylw dyledus i’r angen i (1) ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod gosod cyllideb yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae’r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig dal yn ei flynyddoedd cynnar, ni ystyrir fod unrhyw ardrawiadau penodol yn deillio o’r penderfyniadau sydd gerbron.

6.3. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a

diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae Rheoliadau 16 ac 17 o'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu'r costau. Mae'r rheoliadau yn gosod gofynion penodol ynglŷn â cyfrifo a chymeradwyo gofynion cyllideb (Rheoliad 16) ac yna, fel ail gam, cytuno cyfraniadau ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol (Rheoliad 17). Yn ôl statud, rhaid i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig fabwysiadu'r Gyllideb erbyn 31 Ionawr 2025. Petai y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn methu â chytuno y cyfraniadau, yna mae gan Weinidogion Cymru rym statudol i gyfarwyddo ar ddosraniad y cyfraniadau.

7.2. Fe nodir yn y penderfyniadau a geisir fod gofynion penodol ynglŷn â cworwm a pleidleisio yn perthyn i'r penderfyniadau yma. Felly, mae angen sicrhau fod y pleidleisio yn cael ei drefnu mewn modd sydd yn adlewyrchu ar yr un llaw hawliau pleidleisio penodol sydd yn ynghlwm â gosod y gyllideb ac ar y llaw arall yr angen am unfrydedd ar y penderfyniadau ar yr ardoll eto gan wahanu y ddwy elfen.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cyllideb Refeniw 2025/26 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn crynhoi y gofynion technegol sydd yn ynghlwm a'r penderfyniadau yma ynghyd a'r dyletswyddau statudol sydd ynglŷn a sefydlu cyllideb ar ardoll.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.